# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

*2017 / 2018*

# Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni 2017/2018

## Adroddiad y Llywodraethwyr

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae'n anrhydedd cael cyfle i gofnodi rhai sylwadau fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol ar ôl blwyddyn arall brysur ym mywyd yr ysgol. Yn sicr mae pob llywodraethwr yn falch o fod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchïo yn ei holl lwyddiannau.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob un o aelodau staff yr ysgol am eu hymroddiad i'r ysgol. Heb eu gwaith diflino hwy fe fyddai bywyd academaidd ac allgyrsiol y disgyblion dipyn tlotach.

Hoffem ganmol y disgyblion hefyd am eu llwyddiannau amrywiol. Fel llywodraethwyr, mae darllen adroddiad y Pennaeth yn ein cyfarfodydd yn ein llenwi gyda balchder. Rydym yn cael ein synnu a'n plesio, bob tro, gyda'r holl ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig.

Mae dyletswydd arnaf hefyd i ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid, am eich cefnogaeth i'r bobl ifainc ac i'r ysgol. Rydym yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi eich bod yn gorfod aberthu mewn nifer o ffyrdd gwahanol er mwyn sicrhau'r addysg orau posibl i'ch plant.

Mae gwaith y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd yn allweddol i'r ysgol a hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith yn cynnal gweithgareddau i gymdeithasu ac i godi arian ar gyfer addysg y disgyblion.

Yn fy mlwyddyn olaf fel cadeirydd ac fel aelod o'r corff llywodraethol hoffem ddiolch hefyd i'm cyd lywodraethwyr am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r ysgol. Mae'n rôl allweddol ym myd addysg heddiw.

Yn olaf, diolch i Bennaeth yr Ysgol a'r uwch dim arwain am eu harweiniad cadarn a phwrpasol.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

***Gareth Jones***
***Cadeirydd y Corff Llywodraethol***

# Adroddiad Y Pennaeth

Dyma flwyddyn academaidd lwyddiannus eleni eto. Mae canlyniadau arholiadau cryf iawn wedi ein gweld yn cyrraedd y brig o ran ysgolion y Sir, y teulu a Chymru. Bu'n flwyddyn arbennig o heriol gyda'r holl newidiadau i'r arholiadau TGAU ond drwy'r cyfan fe welwyd gwelliant ymhob un o'r dangosyddion perfformiad. Hoffwn ddiolch yn arbennig i ddisgyblion, rhieni a staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Ysgol Bro Myrddin dros y ddegawd ddiwethaf. Rydym yn un o 'ysgolion arloesi' newydd Cymru o dan gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym hefyd newydd gwblhau ein hail flwyddyn fel ysgol arloesi greadigol trwy gydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydym bellach wedi ennill y faner Masnach Deg ac yn parhau gyda chynlluniau newydd arloesol yn y maes hwnnw. Yn ystod y flwyddyn hefyd fe'm achredwyd fel ysgol Addysg Ariannol ac mae'r cynlluniau wedi bod yn werthfawr i'r ysgol a'n disgyblion. Rydym yn barhau yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi ac yn bartner ysgol gyda'r Athrofa a chwe ysgol Gymraeg leol o ran y cynllun hyfforddi athrawon newydd.

Bu llawer o lwyddiannau eraill hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter a Facebook. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau eraill fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau llais y Cyngor Ysgol trwy greu cynghorau blwyddyn gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddosberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddaru ein gwefan yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Yn sicr mae ein gwefan newydd yn fwy hylaw ac yn rhoi holl fanylion diweddar yr ysgol. Mae gennym hefyd ap sy'n bosibl ei defnyddio ar unrhyw ffôn glyfar. Mae ein taith ddigidol yn datblygu ac rydym yn edrych ymlaen ar gyfer cydweithio gyda arweinwyr digidol o blith y disgyblion yn y flwyddyn academaidd nesaf.

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddiflino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisïau a gweithgareddau'r ysgol. Diolch hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

***Dr Llinos Jones***
***Pennaeth***

## Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

### *A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn*

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ers 2015. Trwyddi draw, mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn wedi bod yn dda iawn yn y ddau gyfnod allweddol yn 2017/2018, gan gynnwys pob un o'r dangosyddion perfformiad yn CA4. Serch hynny, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn dal i fod yn sylweddol mewn ambell i ddangosydd.

### *A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau*

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ers 2015 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoes mae cynlluniau manwl ar y gweill. Mae gwaith y Gweithgor Addysgu a Dysgu wedi datblygu'n aruthrol ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd clir yn ansawdd yr addysgu.

### *A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr*

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a gosodwyd targedau pendant. Crëwyd cyfres o ddogfennau data pwrpasol er mwyn gwella ymwybyddiaeth athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr parthed data perfformiad yr ysgol. Yn ogystal â'r cymariaethau arferol – teulu data'r llywodraeth, grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim (PYADd) a chyfartaledd yr ALl a Chymru – mae'r dadansoddiadau yn cynnwys cymharu perfformiad yr ysgol (dros gyfnod o bedair blynedd) yn erbyn ysgolion gyda'r canrannau PYADd isaf. Maent, hefyd, yn tynnu sylw at safle'r ysgol mewn ystod o ddangosyddion ac mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys Llinell Atchwel ERW a Llywodraeth Cymru. Darparwyd hyfforddiant mewnol parhaol ar gyfer athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr ac o ganlyniad, mae ymwybyddiaeth rheolwyr a llywodraethwyr yr ysgol o ddata perfformiad ysgolion yn gyffredinol, a sefyllfa'r ysgol yn benodol, wedi gwella'n sylweddol. Ers 2016 mae hynny yn cynnwys ymwybyddiaeth Penaethiaid adrannau o bwysigrwydd canlyniadau lefel UG/Uwch a thrwy hynny, felly, ein defnydd o wybodaeth data ALPS.

### *A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant*

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a ffurfiwyd Cynllun Datblygu Ysgol a Chynllun Datblygu Adran newydd sy'n gosod seiliau cadarn i'w thargedau. Mae'r targedau hyn hefyd yn cael eu hamlygu yn hunanarfarniad yr ysgol ac mae cyswllt pendant iawn rhwng y CDY a'r hunanarfarniad sydd hefyd ar ei newydd wedd.

## Aelodau'r Corff Llywodraethol 2017-18

Cadeirydd: Mr Gareth Jones
Is-gadeirydd: Parchedig Beti Wyn James
Clerc: Miss Siân Thomas, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, swyddfa@bromyrddin.sirgar.sch.uk

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol
Pennaeth
6 Rhiant Llywodraethwr
5 Cynrychiolydd yr ALl
2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

**Rhieni Llywodraethwyr** *(cyfnod yn dod i ben)*
Mr Nigel Cooke (04.10.19)
Mr Mydrian Harries (09.11.20)
Mrs Sian Davies (09.11.20)
Mr Terry Abnett (09.11.20)
Mrs Iola Wyn (04.12.20)
Ms Catrin James (20.11.2021)

**Llywodraethwyr Cymunedol** *(cyfnod yn dod i ben)*
Mr Elfed Davies (18.01.21)
Mrs Anne Loughran (18.01.21)
Mrs Luned Thomas (29.03.21)
Parchedig Beti Wyn James (29.03.21)
Mrs Angharad Jones-Leefe (25.03.22)

**Cynrychiolwyr *Athrawon*** *(cyfnod yn dod i ben)*
Mr Aled Williams (31.08.21)
Dr Huw Griffiths (25.09.20)

**Cynrychiolwr Staff** *(cyfnod yn dod i ben)*
Mrs Meinir McLellan (24.5.19)

**Llywodraethwyr yr ALl** *(cyfnod yn dod i ben)*
Parchedig Tom Defis (27.01.19)
Mr Gareth O Jones (Cadeirydd) (04.09.19)
Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.20)
Cynghorydd Mair Stephens (25.09.20)
Mr Arwel Lloyd (09.04.21)

| Blaenoriaeth strategol YBM | Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol |
|---|---|
| Codi safonau (gyda ffocws arbennig ar gyflawniad y bechgyn) | • Ymchwilio i agwedd bechgyn at bynciau amrywiol a phrofiad ysgol yn CA4<br>• Sicrhau cwricwlwm addas ar gyfer y bechgyn a'r merched trwy ychwanegu cyrsiau amrywiol i'r fwydlen gwricwlaidd<br>• Datblygu ein systemau tracio a monitro<br>• Adrannau i ymateb i'r flaenoraeiaeth trwy eu CDA a Chyfarfodydd monitro<br>• Codi safonau adrannau unigol sydd wedi eu hadnabod yn yr hunanarfarniadau adrannol ac ymweliad Cefnogi ERW 1.<br>• Codi safonau'r 6ed dosbarth trwy gynlluniau amrywiol<br>• Creu cynllun datblygu newydd ar gyfer yr Adran Anghenion Dysgu ychwanegol |
| Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu | • Y gweithgor Addysgu a Dysgu i barhau i ddatblygu addysgeg o fewn yr ysgol<br>• Ymchwilio ar adrodd ar ddulliau asesu newydd<br>• Sicrhau disgwyliau uchel o ddisgyblion ar draws gwersi a darparu cyfleoedd i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog<br>• Datblygu strategaethau gwahaniaethu ar draws gwersi gallu cymysg<br>• Rhannu arfer dda o ran cwestiynu effeithiol<br>• Datblygu triawdau trawsbynciol yn bellach<br>• Datblygu y model Dysgu ac Addysgu ysgol gyfan a throsglwyddo'r model i'r cynradd, rhieni a llywodraethwyr<br>• Rhannu arferion da o ran addysgeg i weddill staff yr ysgol<br>• Hunanarfarnu adrannau gan ddilyn y calendr Hunanarfarnu<br>• Creu cynllun gweithredu yn dilyn hunanarfarniad adrannol CA3 2017-18 |
| Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol | • Datblygu'r ysgol fel ysgol arloesol o ran y cwricwlwm trwy gydweithio gyda LlCC ac ERW ar gynlluniau moderneiddio<br>• Sicrhau DPP effeithiol I bob aelod o staff o fewn yr ysgol<br>• Parhau ar y daith ddigidol<br>• Datlybu capasiti arweinyddiaeth<br>• Datblygu Cymreictod yr ysgol |
| Datblygu amgylchedd gynhaliol yr ysgol | • Cydweithio gyda'r Sir i wella diogelwch y safle<br>• Datblygu amgylchedd yr ysgol<br>• Ymateb i broblemau cynyddol iechyd a lles emosiynol<br>• Datblygu llais y disgybl a'r rhieni |

## Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwers y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8.55-9.05 | Cofrestru | | 10.20-10.35 | Egwyl | | 12.35-1.35 | Cinio |
| 9.05-9.20 | Gwasanaeth | | 10.35-11.35 | Gwers 2 | | 1.35-2.35 | Gwers 4 |
| 9.20-10.20 | Gwers 1 | | 11.35-12.35 | Gwers 3 | | 2.35-3.35 | Gwers 5 |

## Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2018-19

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | |
| Hydref 2018 | 3 Medi | 29 Hydref | 2 Tachwedd | 21 Rhagfyr |
| Gwanwyn 2019 | 7 Ionawr | 25 Chwefror | 1 Mawrth | 12 Ebrill |
| Haf 2019 | 30 Ebrill | 27 Mai | 31 Mai | 22 Gorffennaf |
| Dyddiau HMS Penodol – Dydd Llun Medi 3, Dydd Llun Ionawr 7<br>Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol – Dydd Gwener Hydref 26; Dydd Gwener, Tachwedd 23; Dydd Llun, Gorffennaf 22. | | | | |

## Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2018:

Mrs Sian Taylor – Athrawes rhan amser Busnes.
Mrs Melanie Rees – Athrawes rhan amser Busnes.
Miss Gwenno Thomas – Cynorthwyydd.
Miss Sioned Jones – Cynorthwyydd.

## Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd, ein swyddog 5x60 a'n swyddog ieuenctid er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwas Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chyngor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol daw llu o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o'r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

## Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Yn y flwyddyn 2017-18 llwyddodd yr ysgol unwaith eto i orffen

y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb. Rydym yn gobeithio ar gyfer y flwyddyn 2018-19 y byddwn hefyd yn medru llwyddo i wneud hynny.

## Datganiad Ariannol yr ysgol 2017/18

| | | Cyllideb | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Gwariant | Cyflogau | 3,338,146 | 3,267,767 |
| | Adeiladau | 362,572 | 371,457 |
| | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 449,583 | 455,552 |
| | | 4,150,301 | 4,094,776 |
| Incwm | | Cyllideb | Gwirioneddol |
| | Derbynebau Cwsmeriaid | 231,844 | 226,731 |
| | Grantiau'r Llywodraeth | 3,897,588 | 4,046,342 |
| | Grantiau eraill | 24,169 | 25,114 |
| | | 4,153,601 | 4,298,186 |
| Gwarged / Diffyg | | 3,300 | 203,410 |

## Perfformiad Disgyblion

Fel y nodwyd, gwelwyd canlyniadau arbennig o dda gan yr ysgol eleni eto.

| CA4 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | Teulu 2018 | ALl 2018 | Cymru 2018 |
| L2 Cymraeg | 83.3% | 83% | 84.1% | 85.2% | 82.3% | 68.0% | 74.3% |
| L2 Saesneg | 81.7% | 83% | 76.6% | 69.1% | 73.9% | 67.3% | 62.6% |
| L2 Mathemateg | 88.5% | 86% | 80.5% | 77.9 | 70.5 | 61.4 | 59.4 |
| L2 Gwyddoniaeth | 84.7% | 82% | 93.8% | 77.2 | 78.9 | 69.3 | 63.0 |
| L1 | 100% | 99% | 99.2% | 100 | 99.5 | 95.9 | 93.6 |
| L2 | 95% | 88% | 79.7% | 81.2 | 80.5 | 72.0 | 66.9 |
| L2+ | 82% | 82% | 72.7% | 75.2 | 70.7 | 58.4 | 55.1 |
| DPC | 79% | 80% | 73.4% | 72.5 | 69.1 | 56.8 | 52.6 |
| Pwyntiau (capio) | 383 | 377 | 359 | - | - | - | - |
| Pwyntiau (cap 9) | Mesur newydd yn 2017 | | 390 | 405.8 | 393.8 | 362.4 | 350.1 |
| Pwyntiau (cap 8) | Mesur newydd yn 2017 | | 360 | 367.2 | 358.0 | 330.7 | 320.2 |
| 5 A* i A | - | | - | 40.3 | 28.9 | 19.4 | 18 |

## Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

| Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd | | Rhif ALl / Ysgol | 669/4056 |
|---|---|---|---|
| | Canran y disgyblion 15 oed a: | | |

| | Gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster | Enillodd drothwy Lefel 1 | Enillodd Drothwy Lefel 2 | Enillodd drothwy Lefel 2 Cynwysedig | Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi capio | Sgôr bwyntiau gcyfartalog 8 fesul disgybl wedi capio | Sgôr 5 A* i A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018: 149** | | | | | | |
| **Ysgol 2017/18** | 100 | 100 | 81 | 75 | 406 | 367 | 40 |
| **Ardal ALl 2017/18** | 100 | 96 | 72 | 58 | 362 | 331 | 19 |
| **Cymru 2017/18** | 99 | 94 | 67 | 55 | 350 | 320 | 18 |

| | **Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018: 75** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol 2017/18** | 100 | 100 | 77 | 72 | 391 | 354 | 33 |
| **Ardal ALl 2017/18** | 100 | 96 | 67 | 54 | 351 | 320 | 15 |
| **Cymru 2017/18** | 99 | 94 | 61 | 50 | 336 | 307 | 14 |

| | **Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018: 74** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol 2017/18** | 100 | 100 | 85 | 78 | 421 | 380 | 47 |
| **Ardal ALl 2017/18** | 100 | 97 | 78 | 63 | 376 | 343 | 24 |
| **Cymru 2017/18** | 99 | 95 | 73 | 61 | 365 | 334 | 22 |

1. Gallwch gael manylion am gymwysterau cymeradwy, sgôr pwyntiau a chyfraniad at drothwyon, yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk
2. Gallwch gael gwybodaeth am ba feysydd llafur a gynhwysir ym mhob maes pwnc yn Nodiadau Canllaw.
3. Cyfrifir sgorau pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'u capio drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.
4. Cymhwyster Lefel Mynediad.
5. Ar gyfer SSSP terfynol caiff y diffiniad hwn ei gyfnewid â chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg heb unrhyw gymwysterau fel y diffinnir o dan y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.
6. Defnyddir ar gyfer pob tabl meincnodi Prydau Ysgol am Ddim.

## Cyrchfannau disgyblion

| Disgyblion | Bl 11 | | Bl 12 | | Bl 13 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| | | | | | | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon | 84 | 63.6 | 75 | 89.2 | 1 | 1.1 |
| Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall | 11 | 8.3 | 0 | | 0 | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – coleg | 26 | 19.6 | 7 | 8.3 | 12 | 13.6 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch | 0 | 0 | 0 | | 60 | 68.1 |
| Blwyddyn allan | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6.8 |
| Parhau mewn addysg rhan amser | 0 | 0 | 0 | | 0 | |
| Hyfforddiant ieuenctid gan gynnwys prentisiaeth | 6 | 4.5 | 0 | | 3 | 3.4 |
| Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Wedi gadael yr ardal | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Swydd | 5 | 3.7 | 2 | 2.3 | 6 | 6.8 |

## Presenoldeb

Yn flynyddol mae canran presenoldeb Ysgol Bro Myrddin yn uchel iawn.

| Presenoldeb disgyblion | 2015/2016 | 2016/2017 | 2017/2018 |
|---|---|---|---|
| % Absenoldebau a awdurdodwyd | 4.2% | 4.3% | 4% |
| % Absenoldebau heb awdurdod | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| % Presenoldeb | 95.6% | 95.5% | 95.8% |

| Targedau'r Corff llywodraethol o ran presenoldeb | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/2019 |
|---|---|---|---|
| % Presenoldeb | 95.9% | 96.1% | 96.2% |

## Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau.

## Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

## Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei

drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwlian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

## Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

## Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadau Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

## Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Rhoddir copi i rieni'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu sy'n trosglwyddo o ysgol arall. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

## Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Gwyddoniaeth ym mlwyddyn 10 i 13 mae dewis iaith yn bodoli ond gyda sefydlu'r polisi iaith presennol yn flynyddol bellach bydd hyn yn newid gyda'r blwyddyn 7, 8 a 9 presennol yn parhau gyda'i haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl yn CA3, CA4 a CA5 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol. Ar hyn o bryd hefyd mae'r adrannau yn paratoi adnoddau ar-lein i gynorthwyo rhieni di-gymraeg i gynorthwyo eu plant.

## Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol wedi gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Polisïau

Mabwysiadwyd unarddeg polisi newydd gan y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn sef; proseydd geiriau, hysbysiad preifatrwydd, asesiad di-arholiad, codi tâl ac incwm, anghenion gofal iechyd, cyflog athrawon, gwrth fwlio, iechyd meddwl yn y gweithle, trin gwybodaeth bersonol a adrodd ac ymateb toriadau.

## Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2017-18

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddosbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mr Dyfed James, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mrs Anne Loughran sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 90 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn.

| Blwyddyn | Datganiadau | Gweithredu yn yr ysgol a mwy | Gweithredu yn yr ysgol |
|---|---|---|---|
| **7** | 1 | 7 | 13 |
| **8** | 3 | 9 | 13 |
| **9** | 1 | 1 | 10 |
| **10** | 1 | 4 | 8 |
| **11** | 3 | 0 | 6 |
| **12** | 1 | 2 | 2 |
| **13** | 0 | 1 | 4 |
| **Cyfanswm** | 10 | 24 | 56 |

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darllenydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darllenydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg Iaith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys gweithdy llawysgrifen; gweithdy Fresh Start; gweithdy TT RockStars; gweithdy Literacy Toolbox a gweithdy Llythrennau a Synau.

## Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pum aelod o staff wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Euryn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Miss Zelda Williams, Mr Jonathan Thomas a Mrs Rhian Carruthers, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuenctid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselyddion. Gwelwyd 52 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Miss Alex Davies eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

## Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwireddwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir llu o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canŵio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Bellach mae gan yr ysgol gyngor Chwaraeon a etholwyd trwy bleidlais gan y disgyblion. Rôl y cyngor Chwaraeon fydd arwain a chynghori'r UDA ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r maes.

## Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

## Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir llu o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

## Pwyllgor dyngarol


Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni casglwyd £4,600 gyfer achosion da amrywiol.

## Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## Holiadur i Rieni

A fyddech mor garedig â defnyddio'r holiadur a ddosberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, er mwyn awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2017-18, dyma oedd eich ymateb i'r holiadur.




1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr Ysgol
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.

4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae’r staff yn disgwyl i’m plentyn weithio’n galed a gwneud ei orau.
7. Mae’r gwaith cartref a roddir yn adeiladu’n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae’r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae’r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae’r ysgol yn gwrando ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
14. Rwy’n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy’n teimlo’n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy’n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae’r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i’r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.

## Rhestr o deithiau, digwyddiadau a llwyddiannau 2017-18

### Medi – Tachwedd 2017

**Teithiau:**

**Taith prosiect Donaldson i weld Buddy** – Yn ystod pythefnos gyntaf Gorffennaf bu disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yr ysgol yn dysgu llawer am y canwr roc a rôl Buddy Holly, a hynny drwy gyfrwng nifer fawr o bynciau. Yna, ddydd Mercher, Gorffennaf y 5ed, fe aethant i Gaerdydd i weld y sioe ‘Buddy’ yn y Theatr Newydd.

**Taith yr Adran Gymraeg i’r Gogledd –** Eleni eto, teithiodd disgyblion blwyddyn 12 yr Adran Gymraeg i’r Gogledd i ymweld â llu o leoliadau gwahanol gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Corris a Labrinth y Brenin Arthur, yr Ysgwrn lle cafwyd croeso cynnes gan Gerald, nai Hedd Wyn. Aros wedyn yn Nhŷ Lledr yn Nolwyddelan cyn cerdded o amgylch Rhyd-ddu i werthfawrogi milltir sgwâr TH Parry-Williams. Teithio ymlaen i eglwys Llanrwst i weld y rhyfeddodau cyn teithio nôl trwy Fetws y Coed am adref.

**Taith Longleat –** Bu disgyblion bl 7-9 ar daith yr ysgol i barc Longleat ar ddiwedd tymor yr Haf.

**Taith Paris** – Bu llawer o ddisgyblion bl 8 ar daith yr ysgol i Baris am dridiau ar ddiwedd Gorffennaf.

**Taith bl 12 i Heatherton** – ar ddechrau’r tymor teithiodd bl 12 ar ddiwrnod anwytho i barc Heatherton.

**Taith Daearyddiaeth Blwyddyn 9 i'r afon Ogwr –** Yn ystod y tymor cafodd disgyblion blwyddyn 9 y cyfle i wneud gwaith maes ar yr afon Ogwr. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod fe gafodd yr holl ddisgyblion gyfle i ddefnyddio eu sgiliau Daearyddol ar yr arfordir.

**Digwyddiadau’r ysgol:**

**Maes B Bach 2017 –** Ar ddiwedd tymor yr Haf trefnwyd diwrnod arbennig gan Bwyllgor Cymreictod yr ysgol (Project4 Cymraeg) a’r Chweched Dosbarth ar gaeau'r ysgol i ddathlu Cymreictod mewn steil. Roedd yr haul yn gwenu a phawb wrth eu boddau gyda’r stondinau amrywiol. Roedd gemau niferus gan y llysoedd ac i ddiddanu’r disgyblion a'r staff i gyd, ymweliad gan yr anfarwol Mr Urdd ei hun ac adloniant gan "Jaffro" a’r "Welsh Whisperer". Cafwyd ganddynt wledd o hiwmor a cherddoriaeth wych. Y ddau seren yn gyn ddisgyblion i’r ysgol.

**Priodas ym mlwyddyn 9 –** Dydd Gwener 30ain o Fehefin teithiodd dau fws llawn o ddisgyblion blwyddyn 9 i Eglwys San Pedr, Caerfyrddin ar gyfer achlysur arbennig iawn, sef ffug-briodas Carrie Davies a Joseff Rhys Elis, dau o ddisgyblion blwyddyn 9. Trefnwyd y briodas fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Crefyddol. O dan wasanaeth y parchedig Leigh Richardson fe ddysgodd y flwyddyn cryn dipyn am y seremoni briodasol a'r dathliadau.

**Diwrnodau pontio bl 6** – Treuliodd ddisgyblion bl 6 ysgolion y dalgylch ddeuddydd ar y 6ed a'r 7fed o Orffennaf yn yr ysgol. Cafwyd cyfle i fod yn rhan o gynllun Masnach Deg a chyfle i gymdeithasu a chyd-weithio.

**Sioe Frenhinol** – Yn dilyn cais gan y Sir rhoddwyd cyfraniad o £526.89 i'r sioe frenhinol eleni yn dilyn diwrnod gwisg ein hunain.

**Cyfraniadau** – Ym mis Medi rhoddwyd y cyfraniadau canlynol gan y Pwyllgor Dyngarol - £100 Childline; £500 Alzeimers Association; £617.97 Cymorth Cristnogol (gwerthiant siocled); £100 Llyfrau Llafar y Deillion; £600 Macmillan Cancer Support.

**Gweithdy Celf** – Bu disgyblion bl 9 yn rhan o weithdai Celf arbennig ar waith yr artist Josef Herman am dridiau cyn yr haf.

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol** – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol dros yr haf – Alaw Evans yn 1af ar yr Unawd Cerdd Dant ac yn ail ar yr alaw werin, Elen Fflur Jones yn ail ar yr unawd i ferched a Lois Campbell yn ail yn y llefaru unigol.

**Prif swyddogion 2017-2018** – Etholwyd Garmon Dyfri a Mared Owen yn brif fachgen a phrif merch. Yn eu cynorthwyo roedd Ceris James, Siân Elin Rees, Caryl Jones, Rhys Owen Evans ac Aled Lloyd.

**Aelodau Cyngor Ysgol 2017-2018** – Llongyfarchiadau i'r canlynol a etholwyd yn aelodau o'r cyngor ysgol 2017-2018. Blwyddyn 7 – Fflur Richards ac Andreas Richards**;** Blwyddyn 8 – Emma Mackay ac Alex Mote; Blwyddyn 9 – Lucy Davies a Oliver Percey; Blwyddyn 10 – Mabli Jones a Joseff Rhys-Ellis; Blwyddyn 11 – Bethan McFayden ac Ioan Tillman; Blwyddyn 12 – Ella Parmenter, Holly Cleaton, Harri Jones a Iesyn McAvoy; Blwyddyn 13 – Mared Owen, Caryl Jones, Ceris James, Garmon Dyfri, Rhys O Evans.

**Blwyddyn 7 yn Llangrannog** – treuliwyd tridiau yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog gan ddisgyblion blwyddyn 7 a'u hathrawon ar ddiwedd mis Medi.

**Bore coffi Macmillan –** Ar ddydd Gwener, Medi 29ain cynhaliwyd coffi Macmillan a drefnwyd gan y pwyllgor dyngarol. Codwyd swm anrhydeddus o £600

**Wythnos Fioleg –** Dathlwyd Wythnos Fioleg Y Gymdeithas Fioleg Brenhinol unwaith eto eleni gydag *@ybmbiol* yn gwahodd dau wyddonydd o Barc Genynnau Cymru i drafod eu gwaith. Yn ystod yr wythnos trefnwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth o dan y pennawd "Byd Natur" gyda Courtney o Fl8, Cai o Fl10 a Daniel o Fl13 yn fuddugol yn y gwahanol grŵpiau oedran. "Y byd anweledig" oedd sylw gweithgareddau dydd Iau lle gafodd y disgyblion gyfle i edrych ar wahanol sbesimenau o gelloedd ac organebau ungellog o dan ficrosgop. Ar gyfer myfyrwyr Lefel A, gwahoddwyd Jason Williams o Brifysgol Abertawe i drafod ei waith cyffrous, lle mae'n ceisio defnyddio Samonela i frwydro yn erbyn gwahanol fathau o gansr. Eleni eto, profodd bore dydd Gwener yn ddiweddglo lliwgar gyda chystadleuaeth "Y Bake-off Biolegol." Daeth casgliad anhygoel o gacennau i law, gyda'r eisin a'r ffondant yn cael ei ffurfio mewn i wahanol sbesimenau biolegol. Roedd y safon yn eithriadol o uchel gyda'r beirniaid Mrs. Non Knott a Mr Tim Hayes yn penderfynu wedi hir bendroni bod Trystan Tyler a

Bethan Davies yn fuddugol ym mlwyddyn 7-9, Megan Tyler gyda'i chynrychiolaeth o ysgyfaint yn ennill ym mlwyddyn 10-11 a Mared a Gwenllian yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Chweched a'r Staff.

**Bioleg –** Cyn yr haf, am y tro cyntaf, fe wnaeth disgyblion Bl12 fod yn rhan o'r cwis "Intermediate Olympiad." Cafodd tri ohonynt wobrau arbennig sef: Mared Owen Gwobr Arian, Caleb Williams Gwobr Efydd a Nia Williams Clod Uchel. Bu llawer o ddisgyblion blwyddyn 10 hefyd cyn yr Haf yn rhan o'r Her Bioleg gan y Gymdeithas Fioleg Frenhinol a llwyddodd Evan Burke i ennill yr arian, Mabon Evans, Aled Beynon, Ifan Rogers, Jac Davies a Mali Hughes yn ennill efydd a 14 disgybl ychwanegol yn derbyn clod uchel.

**Gwasanaeth Diolchgarwch –** I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol yng nghwmni y Parchedig Beti Wyn James ar y 25ain o Hydref.

**Banc Bwyd Gaerfyrddin –** Yn dilyn ein gwasanaeth diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Dosbarthwyd y cyfraniadau i'r banc bwyd gan ddisgyblion yr ysgol ar fore'r gwasanaeth.

**Noson Agored 2017** – Unwaith eto, agorodd Ysgol Bro Myrddin ei drysau i'r cyhoedd ar nos Iau y 19eg o Hydref. Roedd bwrlwm a gweithgareddau amrywiol ym mhob adran o amgylch yr ysgol. I agor y noson cafwyd sgwrs bwrpasol gan y brifathrawes Dr Llinos Jones.

**Taith America 2017** – Teithiodd 132 o'r ysgol i America a chafwyd amser gwych gan bawb.

**Tîm siarad cyhoeddus** – Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus hŷn yr ysgol sef Garmon Dyfri, Ceris James a Heledd Jones am gyrraedd rownd derfynol genedlaethol y Rotari ar 13 o Dachwedd yng Nghaerdydd

**Dangos y cerdyn coch i hiliaeth** – cynhaliwyd diwrnod gwisg ein hunain ar gyfer yr achos hwn ar yr 20fed o Hydref. Casglwyd £733.48.

**Sialens y llysoedd** – Atgyfodwyd sialens y llysoedd a threfnwyd cystadlaethau niferus yn ystod y flwyddyn. Dechreuwyd gyda sialens rhwyfo ar ddechrau'r tymor a symudwyd ymlaen i gystadleuaeth Bro Awyr blwyddyn 7 ac i limrig y llysoedd. Cafwyd 116 o limrigau a'r buddugol oedd Garmon Dyfri a Gwenllian Perkins Thomas.

**Llwyddiant D/T** – Llongyfarchiadau i Wil Garrard o flwyddyn 13 ar y ffaith bod ei waith wedi ei arddangos yng ngwobrau arloesoedd CBAC yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

**Noson grefftau** – Cynhaliwyd noson grefftau gan y Gymdeithas Rieni yn yr ysgol ar Fedi yr 28ain. Gwnaethpwyd elw o £750 gyda 35 o stondinau amrywiol.

**Cerddorfa'r Sir** – Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu ar daith gyda cherddorfa'r Sir i America yn ddiweddar – Angharad Beach, Gwenllian Howells, Mali Hughes, Manon James, Nia Elin James, Manon Jones, Hannah Medi, Phoebe Morgan a Catrin Owen.

**Côr y Sir** – Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n rhan o gôr llwyddiannus Sir Gâr a enillodd dros Gymru ac a gafodd yr anrhydedd i deithio i gystadleuaeth yr Eurovision.

**Llwyddiannau chwaraeon**.
**Seiclo i dîm Cymru -** Teithiodd Guto Dafydd i wlad Belg ym mis Awst i gystadlu gyda thîm Seiclo Cymru dan 16.

**Athletau ysgolion Cymru** – Llongyfarchiadau I'r canlynol ar eu llwyddiant cyn yr Haf - Iwan Glynn 1af 800m; Daisy Thompson 2il 800m; Thomas Jones 2il 3000m.

**Pencampwriaeth tynnu rhaff o dan 19 Prydain –** Llongyfarchiadau i Elain Williams o flwyddyn 12 am ennill pencampwriaeth tynnu rhaff dan 19eg oed Prydain yn Mis Awst ac yn ail yn mhencapwriaeth y byd yn Southport ym mis Medi.

**Chwildroi Baton –** Llongyfarchiadau i Cerys Davies ar ennill gwobr gyntaf a dwy trydedd wobr ym mhencampwriaeth chwildroi y baton yn ddiweddar.

**Pencampwr y ras filltir** – Llongyfarchiadau i Frank Morgan ar ennill y ras filltir dan 13 oed yng Nghaerdydd.

**Pencampwr karate** – Llongyfarchiadau i Gareth Thomas o fl 7 ar ennill medal Efydd ym mhencampwriaethau Prydain Karate.

**Cystadleuaeth saethu -** Llongyfarchiadau i Megan Jones o flwyddyn 10 ar ennill medal arian yng nghystadleuaeth saethu ysgolion Prydain ar Hydref y 4ydd. Llongyfarchiadau hefyd i Jac Lewis a Celyn Yate am ddod yn 5ed a 6ed yn yr un cystadleuaeth.

**Gemau mis Medi a Hydref** – bu'n gyfnod hynod brysur yn yr ysgol gyda 43 o gemau amrywiol gyda phob tîm pêl-droed wedi ennill eu gemau; y timoedd rygbi wedi cael 1 gêm gyfartal, ennill 6 a cholli 2; hoci wedi colli 4 a 2 gêm gyfartal a phêl-rwyd wedi ennill 16 a cholli 3.

**Sgwad hwylio Prydain** – llongyfarchiadau i Aled Llywelyn Jones blwyddyn 10 ar gael ei ddewis i sgwad hwylio Prydain Fawr ar gyfer tymor 2016-17 ac am ennill pencampwriaeth hwylio Cymru dros yr haf.

## Tachwedd 2017 – Chwefror 2018

**Teithiau**
**Taith i'r Ysgwrn –** Ar yr 15 o Dachwedd, teithiodd grŵp o 9-4 a 9-5 i'r gogledd ar fws i ymweld â'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, cartref y bardd Ellis Evans, sef Hedd Wyn.

**Stori'r Geni'n fyw –** Prynhawn dydd Gwener y 15fed o Ragfyr aeth disgyblion flwyddyn 7 gyda'r Adran Addysg Grefyddol i weld drama Stori'r Nadolig yng nghapel Y Bedyddwyr.

**Adran Fathemateg** – Ar ddydd Iau 14$^{eg}$ o Ragfyr, bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 11 ar wibdaith i wrando ar ddarlithoedd y "Maths Inspiration" yng Nghaerdydd. Cawsant fore diddorol iawn yn gwrando ar wahanol gyflwyniadau gan nifer o siaradwyr gan gynnwys Matt Parker. Roedd testunau'r darlithoedd yn amrywio o drafod pa fath o Fathemateg sy'n hanfodol i dynnu Selfie a chwarae gitar yn ogystal â'r mathemateg mae dylunwyr a phenseiri yn ei ddefnyddio wrth ddylunio ac adeiladu stadiwm fel stadiwm enwog yr "Emirates", cartref tim pêl-droed Arsenal.

**Chwefror 1af** – Eleni, teithiodd 150 o ddisgyblion gyda'r Adran Gerdd i weld y sioe Mamma Mia yn Llundain.

**Taith yr Adran Wleidyddiaeth** – Bu'r chweched dosbarth sy'n astudio Gwleidyddiaeth ar daith i'r cynulliad yn ddiweddar gan ddysgu am Ddeddfau Cymru 2017.

**Taith Sgio** – Teithiodd bron i 90 o ddisgyblion yr ysgol a staff i Nassfeld ar gyfer taith sgïo i'w chofio.
**Digwyddiadau'r ysgol:**

**Llwyddiant i Fro Myrddin yn yr Ŵyl Gerdd Dant –** Llongyfarchiadau i ddisgyblion Fro Myrddin am ennill dwy o'r prif gystadlaethau ar gyfer ysgolion uwchradd yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Bro Teifi, Llandysul ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Dachwedd. Enillwyd y wobr gyntaf gan barti gwerin yr ysgol o dan arweiniad Mrs Meinir Richards a pharti cerdd dant yr ysgol o dan arweiniad Mrs Nia Clwyd Davies. Roedd llwyddiant mawr hefyd i Elin Fflur o fl 11 am ennill yr alaw werin blwyddyn 7-11.

**Llwyddiant y tîm siarad cyhoeddus –** Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus yr ysgol sef Heledd Jones, Ceris James a Garmon Dyfri ar ddod yn ail yn rownd derfynol genedlaethol y Rotari mewn cystadleuaeth eithriadol o safonol yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd ar y 13eg o Dachwedd. Fe lwyddodd Heledd Jones i ennill y wobr gyntaf am y cynigydd gorau yn y gystadleuaeth gyda Garmon Dyfri yn ennill yr ail wobr am y gwrthwynebydd gorau. Ceris James hefyd yn cael ei chydnabod fel un o'r cadeiryddion cryfa'. Roedd y tîm felly o fewn trwch blewyn i ennill y gystadleuaeth.

**Perfformio yng Nghyngerdd Blynyddol Côr Meibion Caerfyrddin – nos Sadwrn, Tachwedd 18fed –** Bu Côr Hŷn yr ysgol yn brysur yn perfformio yng Nghyngerdd Blynyddol Côr Meibion Caerfyrddin nos Sadwrn, Tachwedd 18fed yng Nghapel y Priordy yng Nghaerfyrddin. Roedd hi'n hyfryd perfformio yn y cyngerdd hwn, gyda chysylltiadau niferus rhwng aelodau Côr yr Ysgol ac aelodau Côr Meibion Caerfyrddin. Roedd hi'n braf hefyd rhannu llwyfan gyda'r tenor ifanc dawnus - Osian Wyn Bowen.

**Ymweliad Lab mewn Lori –** Cafodd pob disgybl o flynyddoedd 8 a 9 y profiad o ymweld gyda'r Lab mewn Lori ar y 24ain o Dachwedd.

**Perfformio yn y Ffair Aeaf yn Llanwelwedd – Dydd Llun, Tachwedd 27ain –** Cafodd criw o ferched hŷn yr ysgol brofiad difyr yn canu yn y Ffair Aeaf eleni, a hynny ar ddiwrnod gaeafol dros ben ar ddiwedd Tachwedd. Er y tywydd garw, roedd gweld yr holl stondinau Nadoligaidd yn ddifyr ac yn creu naws yr Ŵyl yn gynnar i ni. Roedd hi'n braf cael cefnogi'r Ffair Aeaf gan fod Llywydd y Ŵyl eleni yn ŵr o Sir Gâr – sef Mr Brian Jones, Castell Howell.

**Cyngerdd Nadolig yn Neuadd Pontyberem – Nos Sul, Rhagfyr 3ydd –** Profiad hyfryd i Fand Chwyth yr Ysgol oedd perfformio yn Neuadd Pontyberem mewn cyngerdd a drefnwyd gan Fand Crwbin ar nos Sul, Rhagfyr 3ydd. O dan arweinaid Mrs Jacquie Scaife, fe wnaethant berfformio nifer o ddarnau Nadoligaidd, a hefyd, cawsant gyfle i berfformio medli o garolau ar y cyd gyda Band Crwbin. Roedd hyn yn brofiad pleserus iddynt. Roedd hi'n hyfryd hefyd i glywed disgybl ym mlwyddyn 11 – Alaw Evans sy'n byw ym Mhontyberem yn perfformio carolau Nadolig. Cafwyd noson hwylus, gyda'r gwin a'r mins peis yn ystod yr egwyl yn creu awyrgylch Nadoligaidd hyfryd. Diolch i'r disgyblion am roi o'u hamser.

**Dathliad Cymunedol o'r Nadolig yn Eglwys San Pedr – nos Sul, Rhagfyr 10fed –** Braf oedd clywed triawd offerynnol yr ysgol yn perfformio yn Nathliad Cymunedol o'r Nadolig o dan nawdd Band Chwyth Caerfyrddin yn Eglwys San Pedr, nos Sul, Rhagfyr 10fed. Roedd perfformiadau Daniel O'Callaghan, Manon Dafydd Jones a Catrin Owen o'r safon uchaf, ac yn sicr yn destun balchder i'r ysgol. Diolch iddynt.

**Adran Fathemateg –** Cynhaliwyd tridiau traws gwricwlaidd Addysgu Sgiliau Ariannol ar y 11eg o Ragfyr. Yn ystod y tridiau cafwyd cefnogaeth gweithwyr y Principality a chafwyd sesiynau buddiol ar gyllido, gwahanol fathau o gynnyrch ariannol, buddsoddiadau, menthyciadau, risg a thwyll gyda disgyblion o flynyddoedd 7,8,9 a 10. Hoffai'r ysgol ddiolch i James Harper a gweithwyr y Principality am y trefniadau a'r hyfforddiant ac yn arbennig i Mr Tom Denman sef Prif Swyddog Cyllid y Principality a ddaeth i siarad â disgyblion o flwyddyn 8 a 9 am bwysigrwydd gallu trafod a rheoli arian yn effeithiol yn ogystal a'r mathau wahanol o swyddi sydd i'w cael mewn cwmniau tebyg i'r Principality.

**Ymweld â Chartref yr Henoed, Caeglas, Ffairfach, Llandeilo – Bore Mercher, Rhagfyr 20fed -** Mae hi'n arferiad bellach i'r Adran Gerdd ymweld â chartref yr Henoed adeg y Nadolig, ac roedd hi'n hyfryd

eleni i fynd a chriw o ddisgyblion Bl 12 a 13 i gyflwyno rhaglen Nadoligaidd i Gartref yr Henoed yng Nghaeglas, Ffairfach, Llandeilo, a hefyd i Cartref Cynnes yn Nhre Ioan, Caerfyrddin. Cafwyd amrywiaeth safonol o eitemau unawdol a deuawdol yn ogystal ag ambell eitem offerynnol.

**Gwasanaeth Nadolig yr ysgol a Banc Bwyd Caerfyrddin** – Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr ysgol yn Eglwys San Pedr fel clo i'r tymor. Yn dilyn y noson, cyflwynwyd siec o £600 i Fanc Bwyd Caerfyrddin.

**Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Bro Myrddin – Prynhawn Gwener, Rhagfyr 22ain –** Ar ddiwedd tymor prysur, roedd hi'n hyfryd ar brynhawn olaf y tymor i gynnal Gwasanaeth Nadolig yr ysgol. Llywiwyd y Gwasanaeth gan y prif swyddogion: Mared Owen a Garmon Dyfri, ac fe gafwyd amrywiaeth o ddarlleniadau, gweddïau a charolau. Daeth y gwasanaeth i ben gyda'r ysgol gyfan yn canu "Nadolig Llawen i chi gyd".

**Ennill baner Masnach Deg** – Llongyfarchiadau i'r ysgol am ennill Baner Masnach Deg ym mis Rhagfyr gan sicrhau bod yr ysgol bellach yn Ysgol Fasnach Deg.

**School of Hard Knocks** – Bu disgyblion o'r ysgol yn rhan o weithgaredd SOHK Cymru yn y Sgarlets ym mis Rhagfyr. Rhaglen a drefnir gan y Principality yw'r rhaglen hon.

**Casglu arian** – Casglwyd £400 gan yr ysgol i elusennau y Principality sef Cancer Wales, Llamau UK ac elusen SOHK.

**Criw Celf –** Braf yw llongyfarch y disgyblion canlynol ar eu llwyddiant gyda rhaglen 'Criw Celf' Oriel Myrddin. Bydd y disgyblion yn derbyn sesiynau ar gyfer gwella sgiliau creadigol gyda artistiaid a dylunwyr amrywiol yn ystod y flwyddyn, bydd eu gwaith yn cael ei harddangos mewn Arddangosfa pobl ifanc celf ym mis Gorffennaf. Sara Williams, Ceris Jones, Enid Owen, Elan Williams, Rhys Lewis, Joshua Morbey, Lauren Davies, Walter Hellier, William Gledhill, Emily Flint a Bethan Davies

**Croesawu dau brifardd i'r Adran Gymraeg –** Ar fore Dydd Mercher, Ionawr 10fed, bu dosbarth Blwyddyn 9 Cymraeg Miss Lisa Jones yn lwcus i gael gweithdy barddoni gyda'r Prifardd Hywel Griffiths. Croesawyd hefyd y prifardd Aneirin Karadog i'r Adran Gymraeg yn ddiweddar i drafod ei gerdd "Gweld y Gorwel" gyda disgyblion Blwyddyn 11.

**Ymweliad y parchedig Roger Thomas â'r Adran Addysg Grefyddol –** Prynhawn dydd Mercher y 16eg o Ionawr 2018, daeth y Parchedig Roger Thomas i gael sgwrs gyda dosbarth 7-4 er mwyn cwrdd â disgyblion o Fro Myrddin a dod i'w hadnabod yn well. Cawsant hanes diddorol ei fywyd a chlywed am ei rôl brysur o fewn y gymuned. Rhannodd ei brofiadau crefyddol a bu'n sôn am ei waith yng Nghapel Efengylaidd Caerfyrddin. Cafodd y disgyblion gyfle i wrando a holi cwestiynau am ei brofiadau.

**Noson o gomedi Cymraeg** – Cynhaliwyd noson hynod lwyddiannus gan gymdeithas rhieni yr ysgol pan ddaeth y comedïwr a'r cyn-ddisgybl Elis James i gynnal noson o gomedi Gymraeg yn y Lyric ar y 26ain o Ionawr. Llwyddwyd i wneud elw o bron i £6,000.

**Cystadleuaeth Adeiladwaith –** Ar 29ain o Ionawr cynhaliwyd cystadleuaethau mewn crefftau adeiladwaith gan gynnwys bricwaith, gwaith coed, plwmio, paentio, gwaith trydanol, plastro, gwaith asiedydd a hefyd adran i ddisgyblion ysgol 16 neu iau. Yn cystadlu roedd llu o golegau ac ysgolion o Geredigion, Penfro, Castell Nedd, Gŵyr a Sir Gâr. Yn yr adran 16 ac iau, dewiswyd dau aelod o Fro Myrddin, sef Kayleigh Jones a Mason Evans fel rhan ô dim Coleg Sir Gâr ac mewn cystadleuaeth agos iawn gyda deuddeg cystadleuydd, dyfarnwyd Mason Evans yn drydydd gan dderbyn tystysgrif a thlws gwydr wedi ei ysgythru.

**Gwisgo coch i Gymru a Felindre** – Ar ddydd Gwener yr ail o Chwefror bu'r ysgol yn rhan o'r weithgaredd gwisgwch goch i Gymru a Felindre.

**Eisteddfod yr ysgol** – Ar ddydd Iau, Chwefror y 15fed cynhaliwyd eisteddfod flynyddol yr ysgol. Eto eleni cafwyd l-rwydiwrnod llawn hwyl a chystadlu brwd. Enillydd y gadair Gymraeg oedd Lois Campbell o lys Llwydiarth ac enillydd y gadair Saesneg oedd Laurie Thomas hefyd o lys Llwydiarth. Enillwyd y goron Gymraeg gan Briall Dyfri o lys Llwydiarth ac enillwyd y goron Saesneg gan Carina Sidhu o lys Peniarth. Enillwyr cystadleuaeth y côr eleni oedd llys Hengwrt. Enillwyd tlws y dawnsio gwerin gan lys Hergest gyda thlws cystadlaethau'r llwyfan yn cael ei hennill gan lys Llwydiarth a thlws y gwaith cartref gan lys Peniarth. Ond enillwyr y steddfod eleni yn y drefn ganlynol oedd Peniarth gyda 1,049 o bwyntiau, Llwydiarth gyda 945 o bwyntiau, Hergest gyda 883 o bwyntiau a Hengwrt gyda 680 o bwyntiau. Y ddau feirniad oedd Mr Geraint Hughes a Mrs Siw Hughes.

**Canu ar Noson Lawen, Chwefror 17** – Braf oedd gweld côr merched hŷn yr ysgol yn canu ar y rhaglen Noson Lawen.

**Llwyddiant Fformiwla 1** – Enillwyd her Fformiwla 1 Cymru gan dîm bechgyn blwyddyn 9 yn ddiweddar. Ymlaen nawr i rownd Prydain yn Silverstone.

**Garry Owen o'r BBC** – Cafodd criw o ddisgyblion blwyddyn 11 y profiad o gydweithio gyda Garry Owen o'r BBC yn ddiweddar yn rhan o weithdy bwletin ysgol y BBC.

**Dathlu Gŵyl Ddewi –** Er gwaethaf y tywydd gwael, llwyddodd yr ysgol i gynnal gwasanaeth Gŵyl Ddewi ar Fawrth y 1af. Yn ychwanegol cafwyd twmpath dawns amser cinio a bu criw o'r ysgol yn perfformio ar lwyfan Menter Sir Gâr yn y dref.

**Ennill tlws yr Ifanc** – Llongyfarchiadau i Isaac Richards o flwyddyn 12 ar ennill tlws yr ifanc yn Eisteddfod Rhydlewis yn ddiweddar.

**Disgybl ar ei ffordd i Rydychen** – Llongyfarchiadau i brif ferch yr ysgol, Mared Owen ar dderbyn lle yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen i astudio Meddygaeth ar gyfer mis Medi 2018.

**Ennill ysgoloriaeth Evan Morgan** – Llongyfarchiadau i Aled Lloyd o flwyddyn 13 ar ennill ysgoloriaeth Evan Morgan i fynychu Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

**Cyn-ddisgybl yn rhannu arbenigedd** – Bu'r Dr Angharad Wyn ar ymweliad gyda chriw blwyddyn 12 Gwyddor Meddygol ar y 9fed o Chwefror yn rhannu eu harbenigedd meddygol.

**Cynhadledd gyrfau** – Teithiodd pob disgybl o flwyddyn 10 i gynhadledd gyrfau ym Mharc y Sgarlets yn ddiweddar a drefnwyd gan Gyrfa Cymru.
**Ymweliad gyda'r 6ed** – Ar ddydd Mercher y 7fed o Chwefror bu cast y rhaglen 'Gwaith Cartref' a'r cyflwynydd a'r cyn-ddisgybl Owain Llyr Williams yn cynnal sesiwn arbennig i'r 6ed dosbarth ar broblemau iechyd meddwl.

**Llwyddiannau chwaraeon**
**Hwylio dros Brydain** – Llongyfarchiadau i Aled Llewellyn Jones yn dilyn cystadlu ym Mhencampwriaethau'r Byd Topper Dinghy yn Ffrainc a Phwllheli dros yr Haf - daeth yn 20fed allan o 178 yn Genedlaethol a 4ydd o dan 15 oed ym Mhrydain.

**Timau pêl-droed –** Eleni fe lwyddodd timau pêl-droed yr ysgol i wneud hanes wrth i bob tîm o bob oed, merched a bechgyn i gyrraedd rowndiau 16 olaf Cwpan ysgolion Cymru. Mae un o'r timoedd wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol sydd i'w chwarae cyn diwedd Ebrill.

**Timau rygbi –** Chwaraewyd 8 o gemau yn ddiweddar gan y timau. Llwyddwyd i ennill 5, colli 2 ac 1 gêm gyfartal.

**Timau pêl-rwyd –** Chwaraewyd cyfanswm o 43 o gemau pêl-rwyd gan y timau. Llwyddwydd i ennill 31, colli 8 a 4 gêm gyfartal.

**Timau hoci –** Chwaraewyd cyfanswm o 17 o gemau. Enillwyd 8, collwyd 6 a 3 gêm gyfartal.

**Llwyddiant ar y trampolîn –** Mae tîm yr ysgol bellach yn bencampwyr Cymru ar y trampolîn – llongyfarchiadau i Jess Thomas, Elina Deacon a Sara Evans.

**Gala Nofio yr Urdd –** Ar ddydd Sul yr 21ain o Ionawr bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng ngala flynyddol genedlaethol yr Urdd 2018 yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i'r holl canlynol: Hannah Bowen – gwobr arian yn y gystadleuaeth Cymysg unigol a 4ydd 100m broga. 4ydd hefyd yn y ras gyfnewid gymysg a 9fed yn y ras gyfnewid rydd; Millie Patterson – 6ed yn y ras 100 metr pili pala a rhydd; Aled Conlon – cyrraedd rownd derfynol y ras broga 100 metr a 5ed yn y ddwy ras gyfnewid; Nia Conlon – 4ydd yn y gystadleuaeth nofio 'cefn' a 4ydd yn y ras gyfnewid rydd. Llongyfarchiadau mawr ar ennill y fedal aur gyda'r ras gyfnewid gymysg; Deryn Cressey-Rodgers – 9fed yn y ras rydd; Liam Edwards – 6ed yn y ras brogan; Joshua Jones – llongyfarchiadau ar ennill y wobr Arian yn y 200 metr cymysg unigol a 6ed yn y ras 100m rhydd.

**Rhedeg yn Iwerddon** – Ar ddechrau Ionawr enillwyd ras trawsgwlad Antrim, Iwerddon gan Frank Morgan o flwyddyn 8.

**Llwyddiant trawsgwlad – Ionawr 2018** – Yn dilyn pencampwriaeth trawsgwlad Brianne aeth y canlynol ymlaen i gynrychioli Dyfed – Bechgyn bl 7 – Bryn Peters 2il; Zach Elvy 3ydd; Steffan Davies 5ed. Merched Bl 7 – Sophia Reid-Thomas 6ed; Gwenllian Jones 9fed. Bechgyn 8/9 – Liam Edwards 1af; Frank Morgan 2il; Ioan Cressey-Rogers 3ydd; Morgan Lloyd 6ed. Merched 8/9 – Daisy Thompson 1af. Bechgyn 10/11 – Archi Morgan 2il. Merched 10/11 – Eva Edwards 1af; Molly Cressey-Rogers 2il; Maddie Morgan 4ydd.

**Pencampwraig Cymru** – Llongyfarchiadau i Daisy Thompson bl 9 ar fod yn bencampwraig Cymru o dan 15 yn y ras 1500m a'r ras 800m.

**Pencampwyr trawsgwlad Cymru** – Llongyfarchiadau i Liam, Frank a Dafydd am ennill pencampwriaeth trawsgwlad Cymru yn ddiweddar.

**Llwyddiant yn noson wobrwyo chwaraeon tref Caerfyrddin** – Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant – Gwryw Canolradd dan 16 – 2il Aled Llewelyn Jones (hwylio); Gwryw iau dan 13 – 2il Liam Edwards (athletau); Benyw iau dan 13 – Daisy Thompson (athletau); Tîm Iau – 1af – tîm rygbi hŷn Bro Myrddin; Gwryw Ieuenctid dan 19 oed – 2il Thomas Jones (athletau).

## Mawrth 2018 – Gorffennaf 2018

**Teithiau**

**Taith i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy** – Bore Gwener yr 19eg o Fai aeth blwyddyn 7 ar daith Astudiaethau Crefyddol i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy lle y croesawyd hwy gan y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti Wyn James.

**Digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol**

**Noson Wobrwyo yr ysgol** – Ar nos Fercher yr 28ain o Fawrth cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol yr ysgol gyda'r siaradwr gwadd Mr Dyfrig Davies. Enillwyd gwobrau arbennig yr ysgol gan Rosa Bruce, Cai Evans, Sioned Beynon, Elen Fflur Davies, Carwyn Bebb, Ffion Richardson, Efa Jones, Siôn Jones,

Manon Dafydd Jones, Angharad Beach, Osian McAvoy, Jessicca Thomas, Meurig Francis, Rhodri Williams a Thomas Jones.

**Sioe Ffasiynau** – Ar nos Iau Ebrill 19eg cafwyd sioe ffasiynau lewyrchus iawn yn yr ysgol gan y ddwy siop Rig Out a Chess o Landeilo. Llywydd y noson oedd Meinir John ac arweiniwyd y noson gan Rhian Morgan ac Aled Samuel. Llwyddwyd i godi dros £2,000 ar y noson.

**Ensemble Cenedlaethol** – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu derbyn i ensemble cenedlaethol Cymru: Manon Dafydd Jones – Cerddorfa Ieuenctid Cenedlaethol Cymru; Mali Hughes – Cerddorfa Ieuenctid Cenedlaethol Cymru ac Alaw Evans – Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

**Fformiwla 1** – Daeth deuddeg o ddisgyblion blwyddyn naw at ei gilydd i greu dau dîm i gymryd rhan yng nghystadleuaeth ryngwladol Fformiwla 1 i ysgolion. Roedd rhaid i'r timoedd ddylunio car rasio fformiwla 1 yn cael ei danio gan nwy cywasgedig ac yn medru teithio dros ugain medr mewn tuag eiliad. Hefyd, roedd angen iddynt greu portffolio o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud a pharatoi cyflwyniad llafar i gael ei gyflwyno ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Daeth tîm Vulcan yn gyntaf (Guilhem Lloyd, Dafydd Waters, Gareth Jones, Cayo Jones, Josh Morbey, Dylan Pearce Taylor) a thîm Nemesis (Liam Edwards, Dafydd Jones, Owen Bailey, Iestyn Burke, Joshua Le Grice, Harri Jones) yn bumed sydd yn ganlyniad gwych i'r disgyblion, yr adran a'r ysgol. Yn dilyn ei buddugoliaeth fe gafodd tîm Vulcan ei gwahodd i Silverstone, lleoliad Grand Prix Prydain, i ymweld â phencampwriaeth Prydain.

**Trafodaeth gyda'r BBC** – Ar ddydd Iau yr 8fed o Fawrth bu saith o ddisgyblion o flwyddyn 11 yn trafod gyda Gary Owen o'r BBC am hawliau a chydraddoldeb a pham bod safbwyntiau pobl ifanc yn bwysig. Cafodd y sgwrs ei darlledu ar ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar y 15fed o Fawrth.

**Eisteddfod yr Urdd** – Teithiodd 34 o gystadlaethau i Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed eleni. Cipiwyd 9 gwobr gyntaf sef yr Ensemble Lleisiol bl 10-13, Côr Cerdd Dant bl 10-13, Côr SATB bl 10-13, Grŵp Cerdd Dant bl 10-13, Alaw Ifans gyda'r Alaw werin unigol bl 10-13, y tîm siarad cyhoeddus sef Heledd, Mared, Cerys a Garmon; Ffion Lewis gyda'i gwaith DT bl 7-9, Annell Dyfri a Llew Richards gyda'i gwaith llenyddol. Cafwyd 3 ail wobr sef y Parti Cerdd Dant bl 7-9, Alaw ac Elin gyda'r ddeuawd bl 10-13 a Betsan Campbell gyda'r ddawns werin unigol. Cipiwyd 5 3ydd gwobr yn ogystal sef y Parti Llefaru bl 10-13, Hanna a Celyn gyda'r ddeuawd cerdd dant bl 10-13; Bryn Richards gyda'r gystadleuaeth offeryn taro, Siwan Jones gyda'r unawd cerdd dant a Daniel Griffiths yn y gystadleuaeth rhyddiaeth i flwyddyn 9. Llongyfarchiadau enfawr i'r holl ddisgyblion a'u hyfforddwyr.

**Bore Proffiliau** – Ar Fai y 3ydd cynhaliwyd bore proffiliau blynyddol blwyddyn 11. Yn dilyn croeso a gair byr gan Dr Jones cafwyd araith bwrpasol gan Emma Benger, Gyrfa Cymru. Dilynwyd y bore gan brynhawn o ddathlu.

**Dwy genhedlaeth yn annog disgyblion yr ysgol i ystyried prentisiaethau** – Bu dau brentis o genedlaethau gwahanol yn ymweld gyda'u hen ysgol yn ystod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau yn ddiweddar er mwyn annog disgyblion i ystyried prentisiaethau fel llwybr i'w gyrfa ddewisol. Diolch i Sam Phillips a Dylan Evans am rannu eu profiadau.

**Cerddor Ifanc Dyfed 2018** – Llongyfarchiadau mawr i Andrea Chang Jones ar ennill Cerddor Ifanc Dyfed 2018.

**Noson dathlu diwylliant Sir Gâr** – Llongyfarchiadau i gorau'r ysgol ar ennill Rhagoriaeth mewn Cerddoriaeth ar gyfer y flwyddyn 2017-2018 a gyflwynwyd mewn noson arbennig yn Theatr y Ffwrnais yn ddiweddar. Derbyniwyd y wobr ar ran yr ysgol gan Mrs Meinir Richards, Garmon a Mared y prif ddisgyblion.

**Campws data Gwyddoniaeth** – ar ddydd Gwener Ebrill 27ain cafodd pymtheg o ferched blwyddyn 8 a 9 gyfle i fynychu sesiwn STEM yng nghampws Data Gwyddoniaeth, yng Nghasnewydd. Bu'n ddiwrnod buddiol iawn a'r merched yn cael bod yn rhan o weithgareddau codio a roboteg.

**Taith i bencadlys Land Rover a Jaguar** – Cafodd 36 o ddisgyblion blwyddyn 10 sydd yn astudio Dylunio a Thechnoleg ddiwrnod i'w gofio wrth ymweld â phencadlys Land Rover / Jaguar yn Solihull, Birmingham yn ddiweddar.

**Ymweliad gan Wasg Gomer** – Ar fore dydd Gwener, Mai 11eg, cafodd blwyddyn 9 ymweliad pwysig gan ddau o weithwyr Gwasg Gomer sef swyddog marchnata, Sam Brown a'r golygydd, Beca Brown.

**Pod ECO** – Ar brynhawn dydd Mawrth, Mai 15fed cafwyd dathliad arbennig o waith grŵp o ddisgyblion Blynyddoedd 7,8 a 9 a fu'n rhan o gynllun arloesi'r ysgol. Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn creu polybender/pod eco yng ngardd yr ysgol. Rhyfeddwyd y rhieni, staff yr ysgol a'r llywodraethwyr gan y datblygiadau arbennig yng ngardd yr ysgol.

**Llwyddiannau chwaraeon**

**Mabolgampau Bro Myrddin** – Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael diwrnod sych a braf iawn ar gyfer y mabolgampau eleni. Roedd cystadlu brwd rhwng unigolion a rhwng y llysoedd gyda nifer o berfformiadau unigol disglair. Llwydiarth ddaeth yn fuddugol ar y diwrnod gyda sgôr o 843, Hengwrt yn ail gyda 749 o bwyntiau, Hergest yn 3ydd gyda 749 o bwyntiau a Pheniarth yn 4ydd gyda 598. Yn dilyn y drefn flynyddol rhoddwyd tlysau i'r pencampwyr o blith y merched a'r bechgyn a enillodd fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau. Yr enillwyr unigol eleni oedd: Bl 7 Merched – Sophia Reid-Thomas; Bechgyn – Harri Howells; Bl 8 Merched – Scarlett Mackenzie; Bechgyn – Liam Edwards a Dafydd Walters; Bl 9 Merched – Hanna Lewis; Bechgyn – Ryan Thomas; Bl 10 Merched – Daisy Thompson; Bechgyn – Ryan Thomas.

**Tîm sgïo yr ysgol** – llongyfarchiadau i'r tîm sgio a enillodd gystadleuaeth ysgolion Gorllewin Cymru yn ddiweddar.

**Gwobr Dug Caeredin** – Llongyfarchiadau i 56 o ddisgyblion blwyddyn 11eg ar dderbyn ei tystysgrifau Efydd Gwobr Dug Caeredin yn Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elizabeth yn ddiweddar.

**Gemau terfynol cwpan ysgolion Cymru, dydd Sadwrn, Mai 12fed –** Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed bechgyn a merched dan 15 yr ysgol ar gyrraedd rownd derfynol cwpan ysgolion Cymru ar faes y Seintiau Newydd yng Nghroesoswallt dydd Sadwrn Mai 12fed. Yn anffodus, colli bu hanes y ddau dîm o 1 gol i 0. Llongyfarchiadau i'r ysgol, serch hynny, ar ennill tarian yr ysgol orau yn y gystadleuaeth ar draws Cymru. Bu i bob tîm gyrraedd rownd yr 16 olaf, cyrhaeddodd 6 tîm y rowndiau gogynderfynol, llwyddodd 4 tîm i gyrraedd y rowndiau cynderfynol a 2 dîm i gyrraedd y rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr i bob tîm.